Eitem Agenda 3 **14 Mai 2010** **WNC 15.10**

ADRODDIAD CYLLID HYD 31 MAWRTH 2010

Pwrpas

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cenedlaethol am faterion ariannol sy'n wynebu Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar hyn o bryd.

BA09/10

2. Am ein bod wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau'r prosesau diwedd blwyddyn, ni chafodd y Dadansoddiad Adnoddau Llawn ei gynnwys yn yr adroddiad hwn. Serch hynny, yn nhermau Gofyniad Arian Net rwy'n rhagweld y sefyllfa alldro a ganlyn sy'n ystyried dwyn ymlaen ein Cronfeydd Ariannu Hyblyg i BA10/11.

BA09/10	**£k**	**£k**
Cronfeydd Cychwynnol		752,000
Incwm Gohiriedig		253,000
Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru		22,533,000
Incwm Alldro		18,688,000
Cyfanswm Incwm		**42,226,000**
Gwariant Alldro	36,012,000	
Ynghyd â Chytundebau Lefel Gwasanaeth (yn cynnwys Cyfarpar)	4,090,000	**40,102,000**
Cronfeydd wrth Gefn		**2,124,000**
Wedi'u cynrychioli gan Incwm Gohiriedig		*26,000*
Cronfeydd wrth Gefn [ni chaniateir mwy na £2,508m]		*2,098,000*

3. Mae'r ffigurau hyn yn amodol oherwydd wrth baratoi'r Cyfrifon Blynyddol bydd rhaid cymhwyso, ond mae'n annhebygol y bydd hynny'n cael llawer o effaith ar ein perfformiad ariannol.

Crynodeb

4. **Costau Adrannol (Grantiau a Rheoliadau)** – Roedd yr alldro o £3.7m yn agos i'r rhagolygon cynharaf. Roedd tywydd gwael y gaeaf wedi gadael ei ôl a thalwyd £1.1m ym mis Mawrth, gan gynnwys £0.6m a dalwyd yn ystod cyfnod olaf taliadau'r Flwyddyn Ariannol.

5. **Ystad Goedwig Llywodraeth y Cynulliad -** er gwaethaf y tywydd gwael, cafwyd gwelliant o ran gwariant arall Rheoli Coedwigoedd yn ystod y misoedd olaf. Bu'n rhaid gwario arian parod ychwanegol er mwyn talu am gludiant a biodanwydd.

6. **Cymdeithasol ac Amgylcheddol –** Yn ôl y disgwyl, bu'n rhaid gwario'n sylweddol ar y diwedd a daeth y gwariant Hamdden, Cadwraeth a Threftadaeth o fewn £0.1m i'r hyn a dybiwyd.

7. **Casgliad** – er i ni gael alldro llwyddiannus unwaith eto, rhaid i ni fynd i'r afael â'r gwariant diwedd-blwyddyn sylweddol a byddaf yn gweithio ar wella proffilio gyda'r Canolfannau Costau yn ystod y misoedd nesaf.

Materion Ariannol a Materion Perthynol Eraill

8. **BA09/10: Cyfrifon Blynyddol** – Wrth weithio ar BA09/10 ar hyn o bryd, rydym yn mabwysiadu am y tro cyntaf **Gyfrifon Blynyddol yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol**. Eisoes, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Prosiect. Yn ôl y galw, byddaf yn diweddaru'n Bwrdd am y sefyllfa.

9. **Cynllun Cyflenwi Caffael** - Trwy wella'r prosesau caffael o dan y cynllun tair-blynedd, rydym wedi arbed £918,000 yn y flwyddyn gyntaf. Gwelir yr arbedion hyn dros gyfnod o 3 - 4 blynedd mewn gwahanol gontractau. Yn ogystal â rhoi gwell gwerth am arian, mae'r cynllun yn golygu gwell llywodraethu yn y gwasanaethau caffael a gwell dealltwriaeth ar draws Comisiwn Coedwigaeth Cymru o bwysigrwydd caffael cywir.

10. **Awdurdodiadau Dirprwyedig** – Rhoddwyd awdurdodiadau dirprwyedig ariannol penodol i holl aelodau staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar 1 Ebrill 2010, gyda'r nod o gael gwell llywodraethu corfforaethol, gwell rheolaeth gyllidebol a llai o risg i'r busnes. Mae hyn yn mynd i'r afael â gwendid a amlygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Dadansoddiad Risg

11. **BA09/10:** asesir bod y risg o wario mwy na'r gyllideb, neu fwy na'n cyllid hyblyg, yn **Isel** [Effaith 4: Tebygolrwydd <1].

12. **BA10/11 a'r tu hwnt:** gyda'r cyllido ar gyfer BA11/12 a'r tu hwnt yn cael ei adolygu, mae'r risg o ostyngiadau pellach sy'n fwy na'r 2% a dybiwyd yn dal yn **Uchel.**

Goblygiadau Adnoddau

13. Fel arfer nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau'n codi o'r papur fel y cyfryw. Mae'n gweithredu fel arweiniad i sut mae'r adnoddau presennol yn cael eu rheoli.

Cyfathrebu

14. Mae sefyllfa ariannol Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei chyflwyno trwy gyfrwng y papur hwn, sy'n cael ei olygu ar gyfer unrhyw gynnwys masnachol-sensitif, ar y Rhyngrwyd. Yn y cyfamser, fe'i trosglwyddir i Reolwyr Unedau trwy gyfrwng Cyfarfodydd Fforwm Rheolwyr, Cyfarfodydd Grŵp Rheoli'r Ystâd, a thrwy'r Tîm o Dechnegwyr Cyfrifyddu Rheoli sy'n cyfarfod yn rheolaidd â Rheolwyr Unedau Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Hefyd, anfonir copïau o'r Adroddiadau Cyllid gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Cenedlaethol at Uned Fusnes Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad a Chyfarwyddwr Cyllid Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr.

Argymhelliad

15. Bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa bresennol.

Martin Veale
Pennaeth Cyllid
3 Mai 2010